

# PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

16 Mehefin 2021

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Harries  
Y Cynghorydd P Baker BEM, Y Cynghorydd Mrs D Clements, Y  
Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S  
Hoss, Mrs J James, Y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Y  
Cynghorydd P Kidney, Y Cynghorydd PJ Morgan, Y  
Cynghorydd R Owens a Dr RM Plummer.

(Rhith-Gyfarfod: 1.55pm – 2.05pm)

## 1. Ethol Cadeirydd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol y Cynghorydd R Owens yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

Gan gymryd y Gadair, diolchodd y Cynghorydd Owens i'r Aelodau am eu hymddiriedaeth ynddo. Dywedodd bod y Pwyllgor y llynedd wedi ymdrin ag amrywiaeth o geisiadau cynllunio mewn modd ymroddgar a phroffesiynol, gan helpu i gynnal a gwella prydferthwch naturiol y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y tîm cynllunio ardderchog dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc, Nicola Gandy, a chymorth a chefnogaeth y Tîm Gwasanaethau Democrataidd. Gan ychwanegu nodyn personol o ddiolch, mynegodd y Cynghorydd Owens ei werthfawrogiad am y cymorth ardderchog yr oedd wedi'i dderbyn gan staff y Parc Cenedlaethol, a'i obaith oedd y byddai hyn yn annog pobl eraill anabl i ymgymryd â swyddi tebyg yn y byd cyhoeddus. Hefyd dymunai ddiolch i'r Cynghorydd M Williams, oedd wedi gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd am sawl blwyddyn, am ei gymorth amhrisiadwy.

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Esboniodd y Cadeirydd bod 2 enwebiad ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd – Dr M Havard a'r Cynghorydd P Kidney – ac felly rhaid oedd cynnal pleidlais gudd. Byddai'r bleidlais yn cael ei chynnal yn unol â Rheol Sefydlog 5 fel y'i diwygiwyd ac fel y cytunwyd yng Nghyfarfod mis Mai o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol lle gofynnwyd i'r Aelodau anfon eu pleidlais at y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd drwy'r e-bost, drwy neges destun, neu dros y ffôn.

**PENDERFYNWYD** ethol Dr M Havard yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.



### **3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd M Evans, Cyngorydd A Wilcox, Cyngorydd M Williams a'r Cyngorydd S Yelland.



# DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE

16 June 2021

Present: Councillor P Harries (Chair of Authority in the Chair)  
Councillor P Baker BEM, Councillor Mrs D Clements, Councillor K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Councillor M James, Mr GA Jones, Councillor P Kidney, Councillor PJ Morgan, Councillor R Owens and Dr RM Plummer.

(Virtual Meeting: 1.55pm – 2.05pm)

## 1. Election of Chair

It was **UNANIMOUSLY RESOLVED** that Councillor R Owens be elected Chair for the ensuing year.

Taking the Chair, Councillor Owens thanked the Members for their confidence in him. He noted that in the previous year the Committee had dealt with a variety of planning applications in a diligent and professional manner, helping to maintain and enhance the natural beauty of the National Park. However this would not have been possible without the excellent planning team lead by the Director of Planning and Park Direction, Nicola Gandy, and the help and support of the Democratic Services Team. Adding a personal note of thanks, Councillor Owens expressed his gratitude for the excellent support he received from staff at the National Park and he hoped that this would encourage other disabled people to take up similar public office roles. He also wished to thank Councillor M Williams, who had served as Deputy Chair for a number of years, for his invaluable support.

## 2. Election of Deputy Chair

The Chair explained that as there were 2 nominations for the Deputy Chair – Dr M Havard and Councillor P Kidney - it was necessary to conduct a secret ballot. This would be undertaken in accordance with Amended Standing Order 5 as agreed at the Meeting of the National Park Authority in May, whereby Members were asked to email, text or phone their vote through to the Administration and Democratic Services Manager.

It was **RESOLVED** that Dr M Havard be elected Deputy Chair for the ensuing year.



### **3. Apologies**

Apologies for absence were received from Councillor M Evans, Councillor A Wilcox, Councillor M Williams and Councillor S Yelland.

